OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 77

# Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

## RHAN 2

### Cyfyngu ar ddodi tail organig

**Dodi tail da byw – y terfyn o ran cyfanswm y nitrogen ar gyfer yr holl ddaliad**

**4.**—(1) Rhaid i feddiannydd daliad sicrhau, yn ystod **[**[F1]y cyfnod perthnasol**]** , na fydd cyfanswm y nitrogen mewn tail da byw a ddodir ar y daliad, boed yn uniongyrchol gan anifail neu drwy daenu, yn fwy na 170 kg wedi ei luosi ag arwynebedd y daliad mewn hectarau.

(2) Rhaid cyfrifo maint y nitrogen a gynhyrchir gan dda byw yn unol ag Atodlen 1.

(3) Wrth gyfrifo arwynebedd y daliad at ddibenion canfod maint y nitrogen y caniateir ei daenu ar y daliad, diystyrir dyfroedd wyneb, unrhyw loriau caled, adeiladau, ffyrdd neu unrhyw goetir, oni ddefnyddir y coetir hwnnw ar gyfer pori.

**[**[F2](4) Ym mharagraff (1), ystyr "y cyfnod perthnasol" yw—

(a) ar gyfer meddiannydd daliad o fewn parth perygl nitradau fel y'i dangosir ar y map mynegai PPN, unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ionawr;

(b) ar gyfer meddiannydd daliad neu ran o ddaliad nad oedd gynt wedi ei leoli neu wedi ei lleoli o fewn parth perygl nitradau fel y'i dangosir ar y map mynegai PPN, unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar **[**[F3]31 Hydref**]**.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 4(1) wedi eu hamnewid (31.12.2022) gan Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2022 (O.S. 2022/1305), rhlau. 1(2), **2(4)(a)**

**F2** Rhl. 4(4) wedi ei fewnosod (31.12.2022) gan Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2022 (O.S. 2022/1305), rhlau. 1(2), **2(4)(b)**

**F3** Geiriau yn rhl. 4(4)(b) wedi eu hamnewid (29.4.2023) gan Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2023 (O.S. 2023/466), rhlau. 1(2), **2(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 4 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(3)**

**Taenu tail organig – terfynau nitrogen fesul hectar**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i feddiannydd daliad sicrhau, mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, na fydd cyfanswm y nitrogen mewn tail organig a daenir ar unrhyw hectar penodol ar y daliad yn fwy na 250 kg.

(2) Rhaid i feddiannydd daliad sicrhau na fydd cyfanswm y nitrogen mewn tail organig, yn gyfan gwbl ar ffurf compost ardystiedig, a ddodir ar unrhyw hectar penodol o'r daliad, yn fwy nag—

(a) 1000 kg mewn unrhyw gyfnod o bedair blynedd os dodir ef fel tomwellt ar dir perllan, neu

(b) 500 kg mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd os dodir ef ar unrhyw dir arall.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2), rhaid cyfrifo cyfanswm y nitrogen mewn tail organig drwy gyfeirio at y dulliau a ddisgrifir yn rheoliad 9 ar gyfer cadarnhau'r cynnwys nitrogen.

(4) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "tir perllan" yw tir y tyfir arno unrhyw ffrwyth a restrir yn Atodlen 2;

(b) ystyr "compost ardystiedig" yw compost gwyrdd neu gompost gwyrdd/bwyd y mae'r cyflenwr yn cadarnhau mewn ysgrifen ei fod yn bodloni'r safonau a bennir yn y cyhoeddiad *PAS 100:2011* ar ddeunyddiau a gompostiwyd, dyddiedig Ionawr 2011 ac nad yw'n cynnwys unrhyw dail da byw;

(c) rhaid i'r meddiannydd gadw cadarnhad ysgrifenedig fod y tail organig yn cydymffurfio ag is-baragraff (b).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 5 mewn grym ar 1.4.2021, gweler **rhl. 1(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/04/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, RHAN 2.